**Atodiad 1**

# *‘Ymrwymiad Caerdydd’*

## *Sicrhau cyrchfannau pendant i Bobl Ifanc yng Nghaerdydd*

*‘Dewis a Chyfle i bawb’*

Cyngor Caerdydd

**Strategaeth Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid**

2015 - 2018

21/09/2016

***Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English***

# CYNNWYS


**Rhagair** .... 3
**Cyflwyniad** .... 4
**Cyd-destun** .... 5
**Gweledigaeth** .... 6
**Canlyniadau Dymunol** .... 6
**Blaenoriaethau Strategol ac Amcanion Allweddol** .... 7
- **Blaenoriaeth 1: Atebolrwydd ac ymrwymiad i weithredu a rennir** .... 7
- **Blaenoriaeth 2: Nodi pobl ifanc sydd fwyaf mewn perygl o ymddieithrio yn gynnar** ... 7
- **Blaenoriaeth 3: Broceru a chydgysylltu cymorth yn well** .... 8
- **Blaenoriaeth 4: Systemau olrhain cadarnach cyn-16 ac ôl-16** .... 8
- **Blaenoriaeth 5: Sicrhau bod y ddarpariaeth yn diwallu anghenion pobl ifanc** .... 9
- **Blaenoriaeth 6: Gwella sgiliau cyflogadwyedd a chyfleoedd cyflogaeth** .... 9

**Y stori y tu ôl i'r ffigurau** .... 10
**Y Llinell Sylfaen** .... 11

# Rhagair

Dros yr 20 mlynedd diwethaf, mae Caerdydd wedi trawsnewid ei hun yn ddinas ffyniannus a bywiog.
Fel un o Ddinasoedd Craidd y DU, gyda phoblogaeth o 351,700, Caerdydd yw'r ddinas fwyaf yng Nghymru a'r nawfed ddinas fwyaf yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Ddinas hefyd yn un o'r rhai sy'n tyfu gyflymaf yn y DU, gyda'r twf swyddi cyflymaf o blith holl Ddinasoedd Craidd y DU rhwng 2000 a 2010.

Mae llwyddiant a thwf parhaus y ddinas yn cynnig amodau ffafriol i ailganolbwyntio ac ailfywiogi ein hymrwymiad i bobl ifanc.

Drwy'r strategaeth hon, ein nod yw sicrhau y caiff pob person ifanc yng Nghaerdydd y cymorth, y dewisiadau a'r cyfleoedd i ddod yn ddinasyddion llwyddiannus, economaidd gynhyrchiol a chysylltiedig. Rydym yn cydnabod bod rhai pobl ifanc yn wynebu heriau a rhwystrau sylweddol sy'n eu hatal rhag datblygu. Rydym yn benderfynol o greu'r amgylchedd lle y gall ein pobl ifanc fwyaf agored i niwed oresgyn yr anawsterau hyn a symud yn llwyddiannus i fyd oedolion a byd gwaith.

Rydym yn cydnabod y cyfraniad y gall cyfranogiad llawn pobl ifanc mewn addysg a hyfforddiant ei wneud at sicrhau bod gan Gaerdydd weithlu medrus ac effeithiol a chodi dyheadau pobl ifanc yn y sir. Mae'n elfen allweddol o'n cynllun corfforaethol ar gyfer creu prifddinas ffyniannus a datblygu economi o'r radd flaenaf.

Er bod gennym gryn dipyn o waith i'w wneud i gyflawni ein huchelgeisiau, rydym eisoes yn cymryd camau breision ymlaen er mwyn cynnig y cyfleoedd gorau posibl i'n pobl ifanc a byddwn yn parhau i weithio mewn partneriaeth er mwyn sicrhau bod Caerdydd yn un o'r prifddinasoedd gorau yn Ewrop i bobl ifanc wireddu eu potensial.

**Y Cynghorydd Phil Bale, Arweinydd Cyngor Caerdydd**

**Paul Orders, Dirprwy Brif Weithredwr**

# Cyflwyniad

Mae Cyngor Caerdydd yn ymrwymedig i gynyddu nifer y bobl ifanc sydd mewn addysg, hyfforddiant a chyflogaeth a sicrhau eu datblygiad. Mae gwella canlyniadau i bobl ifanc a thorri'r cysylltiad rhwng tlodi a chyrhaeddiad yn rhan allweddol o waith ein hysgolion, ein colegau a'n darparwyr hyfforddiant.

Mae cyfran y bobl ifanc 16 oed sydd mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant yn wedi cynyddu'n raddol o flwyddyn i flwyddyn ond mae lle o hyd i gynyddu nifer y bobl ifanc sy'n sicrhau cyrchfan bendant ar ôl gadael yr ysgol.

Rydym yn cydnabod y bydd bob amser bobl ifanc 16+ oed sy'n ei chael hi'n anodd symud i fyd oedolion ac y bydd angen cymorth o ansawdd uchel arnynt er mwyn eu galluogi i wneud hynny'n llwyddiannus. Felly, mae ein strategaeth i gynyddu nifer y bobl ifanc sy'n symud ymlaen i addysg barhaus, cyflogaeth neu hyfforddiant yn cynnwys darparu pecynnau cymorth tra phersonol. Mae hefyd yn cydnabod bod y daith i drosglwyddo'n llwyddiannus o'r ysgol i fyd gwaith yn dechrau ymhell cyn i'r person ifanc gyrraedd 16 oed. Felly, mae ymgysylltu â phobl ifanc yn yr ysgol cyn iddynt ymddieithrio a dadrithio yn rhan hanfodol o'r strategaeth hon.

Mae'r strategaeth hon hefyd yn cyd-fynd â'r agenda ataliol ehangach, gan gynnwys y blynyddoedd cynnar, rhianta a chymorth i deuluoedd a Strategaeth Cymorth Cynnar y Cyngor.

Mae Cyngor Caerdydd yn benderfynol o adeiladu ar arfer da sydd eisoes wedi'i ymgorffori, dysgu o feysydd eraill, creu cyfleoedd a gwella cyfraddau cyfranogi ar gyfer pobl ifanc yn y sir ac, yn benodol, ein grwpiau mwyaf agored i niwed.

Bydd arweiniad cryf a dull system gyfan, lle mae rolau a chyfrifoldebau wedi'u diffinio'n glir a lle mae pob rhanddeiliad yn cydweithio i gyflawni canlyniadau gwell i bobl ifanc, yn allweddol i roi Strategaeth Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid Caerdydd ar waith yn llwyddiannus.

## Cyd-destun

Yng Nghymru, dylid ystyried y strategaeth hon yng nghyd-destun nifer o strategaethau a chynlluniau cenedlaethol allweddol.

- Y *Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid* sy'n nodi model cyflawni sy'n canolbwyntio ar anghenion pobl ifanc, gyda rolau a chyfrifoldebau clir rhwng yr amrywiaeth o sefydliadau sy'n gweithio gyda phobl ifanc ac arweiniad lleol cryf gan awdurdodau lleol a'u partneriaid.

- *Cymunedau yn Gyntaf a Theuluoedd yn Gyntaf,* sy'n anelu at gyflawni canlyniadau cadarnhaol i gymunedau mwy difreintiedig a theuluoedd mwy anghenus yng Nghymru.

- Cynllun Gweithredu *Trechu Tlodi* 2012-2016 sy'n blaenoriaethu ymrwymiad i leihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET).

- Y *Cynllun Gwella Ysgolion* sydd â'r nod o wella llythrennedd a rhifedd a thorri'r cysylltiad rhwng tlodi a chyrhaeddiad.

- Y Datganiad Polisi ar Sgiliau 2014 sy'n nodi pedair blaenoriaeth allweddol, sy'n hanfodol i ddatblygiad a chyflogaeth gynaliadwy.
    - Sgiliau ar gyfer swyddi a thwf
    - Sgiliau sy'n ymateb i anghenion lleol
    - Sgiliau y mae cyflogwyr yn eu gwerthfawrogi
    - Sgiliau ar gyfer cyflogaeth.

- Y system cynllunio ac ariannu Ôl-16 newydd a'r argymhellion o'r Adolygiad o Gymwysterau 14–19.

- Gwaith ehangach Llywodraeth Cymru i hybu cyflogaeth ieuenctid, ôl-18, drwy Twf Swyddi Cymru, hyfforddeiaethau a phrentisiaethau.

Yn lleol, mae'r strategaeth hon yn gwneud cyfraniad sylweddol at y canlyniadau dymunol yng Nghynllun Integredig Sengl y Cyngor,*“Beth sy'n Bwysig”,* sydd â'r nod o sicrhau mai Caerdydd yw'r ‘brifddinas orau i fyw ynddi’ yn Ewrop. Mae hefyd yn sail i flaenoriaethau *Cynllun Corfforaethol* y Cyngor, sef:

- Addysg a Sgiliau i bobl o bob oedran
- Cynorthwyo pobl sy'n agored i niwed
- Datblygu economaidd cynaliadwy i hybu twf a chreu mwy o swyddi
- Gweithio gyda phobl a phartneriaid i gynllunio, darparu a gwella gwasanaethau.

## Gweledigaeth

*Mae pob person ifanc yng Nghaerdydd yn trosglwyddo'n llwyddiannus o addysg orfodol i addysg barhaus, hyfforddiant a byd gwaith ac yn cael eu galluogi i wireddu eu potensial llawn.*

## Canlyniadau Dymunol

- Cynyddu nifer y bobl ifanc sy'n gadael yr ysgol ym mlwyddyn 11 sy'n sicrhau cyrchfan bendant, gynaliadwy mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant.
- Cynyddu nifer y bobl ifanc sy'n gadael yr ysgol ym mlwyddyn 13/14 sy'n sicrhau cyrchfan bendant, gynaliadwy mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant.
- Lleihau canran y bobl ifanc (16-18 oed) nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET).
- Cynyddu nifer y bobl ifanc ac oedolion sy'n manteisio ar gyfleoedd dysgu ôl-18.
- Mwy o bobl ifanc mewn grwpiau sy'n agored i niwed, sydd mewn perygl o fod yn NEET, yn trosglwyddo'n llwyddiannus o'r ysgol i addysg bellach, cyflogaeth neu hyfforddiant.
- Mwy o bobl ifanc 16 – 25 oed sy'n economaidd weithgar.
- Partneriaethau cryf sy'n gweithredu'n effeithiol ledled Caerdydd er mwyn gwella cymorth, dewisiadau a chyfleoedd i bobl ifanc.
- Cynyddu nifer y bobl ifanc sy'n ennill cymwysterau Lefel 2 a lleihau yn nifer y bobl ifanc sy'n gadael yr ysgol heb unrhyw gymwysterau neu â chymwysterau lefel 1.
- Nodir pob person ifanc sydd mewn perygl o fod yn NEET yn gynnar a phennir ymyriadau a chymorth priodol i gefnogi'r broses bontio yng Nghyfnodau Allweddol 3, 4 ac ôl-16.
- Mae digon o gyfleoedd ar gael ar lefelau priodol sy'n adlewyrchu anghenion yr economi. Llai o bobl ifanc yn cylchdroi drwy'r system.
- Mae Llwybrau Asesu a Chynllunio ar waith (y fframwaith asesu ar y cyd wedi'i ymgorffori)
- Cyfranogiad ymatebol cyflogwyr mewn addysg sy'n gwella cyflogadwyedd pobl ifanc sy'n gadael yr ysgol.

- Mae pobl ifanc yn dylanwadu'n uniongyrchol ar y gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau ac yn sicrhau perchenogaeth a pherthnasedd.

## Blaenoriaethau Strategol ac Amcanion Allweddol

Caiff y strategaeth hon ei chyflawni drwy ganolbwyntio ar chwe maes â blaenoriaeth er mwyn cyflawni canlyniadau gwell i bobl ifanc. Mae'r chwe maes allweddol hyn yn cyd-fynd â Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid Llywodraeth Cymru. Ategir y strategaeth gan gynllun gweithredu cryno.

### Blaenoriaeth 1: Atebolrwydd ac ymrwymiad i weithredu a rennir

**Amcanion:**

- Trefniadau arwain a phartneriaeth clir, sy'n sicrhau ymrwymiad dinas gyfan i sicrhau datblygiad llwyddiannus pob person ifanc.
- Ymgysylltu ac ymrwymiad cryf gan y gymuned fusnes a sefydliadau ehangach yng Nghaerdydd.
- Atebolrwydd arweinwyr ysgolion er mwyn sicrhau datblygiad eu dysgwyr ar ôl iddynt adael yr ysgol.
- Fframwaith rheoli perfformiad tryloyw sy'n ei gwneud yn bosibl i gymharu canlyniadau a chyrchfannau dysgwyr ledled y ddinas.

### Blaenoriaeth 2: Nodi pobl ifanc sydd fwyaf mewn perygl o ymddieithrio yn gynnar

Mae'n rhaid i strategaeth hirdymor ar gyfer lleihau maint y grŵp NEET atal pobl ifanc rhag ymuno â'r grŵp. Er mwyn sicrhau y gall pob person ifanc gymryd rhan mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant mae angen canolbwyntio'n arbennig ar y rhai sydd fwyaf agored i niwed. Mae nodi'r bobl ifanc hyn yn gynnar a'u cynorthwyo yn hanfodol i sicrhau y gallant fynd ymlaen i gyflawni a chyfranogi.

**Amcanion:**

- Ymyrryd yn gynnar gyda theuluoedd sydd mewn perygl o gael canlyniadau gwael – sicrhau y caiff plant a phobl ifanc eu nodi ac y darperir cymorth ac ymyriadau iddynt cyn gynted â phosibl.
- Datblygu ffocws ar ymyrraeth gynnar, gan ganolbwyntio'n benodol ar blant sy'n trosglwyddo i'r ysgol gynradd, ac ar ddatblygu sgiliau cynnar
- Rhoi'r Fframwaith Asesu ar y Cyd ar waith mewn ysgolion a gwasanaethau yn unol â Strategaeth Cymorth Cynnar y Cyngor.

## Blaenoriaeth 3: Broceru a chydgysylltu cymorth yn well

Mae gwella a chefnogi'r broses bontio i ddysgwyr rhwng cyfnodau allweddol yn hanfodol i sicrhau bod pobl ifanc yn parhau i gymryd rhan mewn addysg ac y gallant ddatblygu'n llwyddiannus.

**Amcanion:**

- Rhoi model ‘rôl gweithiwr arweiniol’ digonol, wedi'i dargedu ac effeithiol ar waith ledled Caerdydd, a wellwyd drwy ddefnyddio grant o Gronfa Gymdeithasol Ewrop, er mwyn cynorthwyo pobl ifanc sy'n wynebu'r risg fwyaf o ymddieithrio.
- Rhoi trefniadau rhannu gwybodaeth priodol a diogel ar waith ym mhob asiantaeth berthnasol.
- Mae pobl ifanc yn chwarae rhan lawn yn y gwaith o adolygu a gwella ansawdd gwasanaethau a gânt.

## Blaenoriaeth 4: Systemau olrhain cadarnach cyn-16 ac ôl-16

Er mwyn cefnogi prosesau pontio a sicrhau bod gwasanaethau priodol ar waith, mae angen gwybodaeth olrhain dda am leoliad dysgwyr, er mwyn nodi'r rhai y mae angen rhagor o gymorth arnynt ac ailgysylltu'n gyflym y rhai nad ydynt yn llwyddo i barhau mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.

**Amcanion:**

- Rhoi systemau olrhain o ansawdd uchel ar waith sy'n cwmpasu'r broses bontio rhwng cyn-16 ac ôl-16, er mwyn sicrhau y rhoddir cymorth a dewisiadau priodol i bobl ifanc sy'n gadael darpariaeth ddysgu cyn-16 (ysgolion a darpariaeth arall), gan gynnwys cyflwyno'r System Geisiadau Gyffredin.
- Mae data cyrchfannau a data haenau Gyrfa Cymru ar gyfer pobl ifanc 16-18 oed yn amserol a dibynadwy. Mae systemau i gofnodi ac ailgysylltu pobl ifanc 16-18 oed sy'n gadael addysg yn gadarn.
- Mae cymorth pontio ar gael ar gyfer grwpiau sy'n agored i newid wedi'u targedu, e.e.: Plant sy'n Derbyn Gofal, plant anabl, plant ag anghenion dysgu ychwanegol ac anawsterau ymddygiadol, plant sydd â Saesneg fel iaith ychwanegol.
- Cynyddu nifer aelodau Paneli Cymdogaeth ôl-16 ym mhob un o chwe Ardal Rheoli Cymdogaeth Caerdydd, a fydd yn cynnwys rhagor o bartneriaid o'r trydydd sector a phartneriaid eraill.

## Blaenoriaeth 5: Sicrhau bod y ddarpariaeth yn diwallu anghenion pobl ifanc

Mae'n rhaid sicrhau bod digon o gyfleoedd ar gael ar lefelau priodol, y mae'n rhaid iddynt fod o'r ansawdd uchaf posibl waeth ble maent yn digwydd, ac y caiff dysgu a chyflawniad eu hachredu neu eu cydnabod yn ffurfiol.

**Amcanion:**

- Mae darlun cynhwysfawr, cyfoes o'r ddarpariaeth ar gael i nodi bylchau, anghenion nas diwallwyd neu ddyblygu yn y ddarpariaeth sy'n bodoli eisoes.
- Rhoi Gwarant Ieuenctid Caerdydd ar waith er mwyn sicrhau llwybrau datblygu priodol i bob dysgwr erbyn 2016.
- Diwygio'r model darpariaeth ac ariannu ôl-16.
- Datblygu llwybrau priodol a chwricwlwm amgen ar gyfer dysgwyr 14-16 oed sydd mewn perygl o ymddieithrio, yn enwedig ar Lefel 1.
- Mynd i'r afael â phroblemau sy'n ymwneud â chadw myfyrwyr a myfyrwyr sy'n gadael Addysg Bellach a rhaglenni Dysgu Seiliedig ar Waith yn gynnar, er mwyn mynd i'r afael â'r problemau parhaus sy'n gysylltiedig â phobl ifanc yn cylchdroi yn y system.

## Blaenoriaeth 6: Gwella sgiliau cyflogadwyedd a chyfleoedd cyflogaeth

Rydym yn cydnabod y cyfraniad y gall cyfranogiad llawn pobl ifanc mewn addysg a hyfforddiant ei wneud at sicrhau bod gan Gaerdydd weithlu cymwys ac effeithiol a chodi dyheadau pobl ifanc yn y sir.

**Amcanion:**

- Datblygu'r fframwaith ymgysylltu ag ysgolion/busnesau a'i roi ar waith, er mwyn galluogi cydberthnasau gwaith mwy penodol a chynhyrchiol.
- Cwblhau dadansoddiad cynhwysfawr o'r farchnad lafur ar gyfer is-ranbarth Caerdydd, gan ddefnyddio astudiaethau sy'n bodoli eisoes o fewn y ddinas.
- Datblygu modelau newydd o bartneriaethau ysgolion a busnesau, er mwyn manteisio ar gyfleoedd i gydgysylltu dysgu a thwf economaidd.
- Mabwysiadu dulliau arfer gorau o ran cyngor a chyfarwyddyd Gyrfaoedd a phrofiad gwaith i ddisgyblion allweddol yng nghyfnod allweddol 4.

- Ymestyn rhaglenni prentisiaethau a hyfforddiant y Cyngor er mwyn cynyddu'r amrywiaeth o gyfleoedd sydd ar gael i bobl ifanc, yn enwedig y rhai mewn grwpiau sy'n agored i niwed.

# Y stori y tu ôl i'r ffigurau

## Diffiniad o NEET

Mae'r term NEET yn cyfeirio at bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Fe'i defnyddir yn aml i ddisgrifio pobl ifanc sydd wedi ymddieithrio rhag dysgu neu gyflogaeth ac wedi cael eu hymyleiddio mewn cymdeithas.

Gwnaed ymdrechion i amcangyfrif costau ariannol cyfnodau estynedig o fod yn NEET. Amcangyfrifodd astudiaeth gan AdAS fod yr adnoddau ychwanegol sy'n gysylltiedig â bod yn NEET yn costio £97,000 yn ystod oes unigolyn. Cost yr adnoddau ychwanegol yw'r gost i'r economi yn gyffredinol sy'n gysylltiedig â methu â helpu person ifanc 16-18 oed i adael y grŵp NEET yn ystod ei oes. Mae'r amcangyfrif yn ceisio nodi costau ychwanegol diweithdra, tangyflogaeth, trosedd, iechyd gwael, camddefnyddio sylweddau, marw cyn amser a chael plentyn yn ifanc. Felly, yng Nghymru, byddai methu â helpu un garfan o bobl ifanc 16-18 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant i adael statws NEET yn ystod eu hoes yn costio ymhell dros £1 biliwn.

## Pam mae pobl ifanc yn dod yn NEET?

Mae Pobl Ifanc yn dod yn NEET am nifer o resymau ac mewn amrywiaeth o amgylchiadau. Mae symud ymlaen i'r cyfnod ôl-16 yn gyfnod pontio pwysig ym mywyd pob person ifanc. Mae'n hanfodol bod y cyfnod pontio hwn yn cael ei reoli er mwyn lleihau neu ddileu'r risg y bydd pobl ifanc yn dod yn NEET.

I rai pobl ifanc mae dod yn NEET yn gyfnod pontio penodol sy'n arwain yn y pen draw at ganlyniad cadarnhaol. I eraill, mae NEET yn symptom o anfantais ac ymddieithrio yn ystod blynyddoedd cynharach ac yn dynodi ymddieithrio gydol oes rhag chwarae rhan weithredol mewn cymdeithas lewyrchus a chael budd ohoni.

Daeth ymchwil gan Cordis Bright a gomisiynwyd gan Gyngor Caerdydd yn 2007 i'r casgliad nad yw pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn grŵp homogenaidd ond eu bod yn fwy tebygol o brofi nifer o rwystrau neu broblemau sy'n eu hatal rhag ymgysylltu. Maent yn fwy tebygol na'r boblogaeth gyffredinol o fod:

- yn ddynion
- â hanes o beidio â mynd i'r ysgol
- â statws “plant sy'n derbyn gofal”
- â hanes o waharddiadau am gyfnod penodol
- â statws “addysg heblaw yn yr ysgol”
- â datganiad anghenion addysgol arbennig
- â phrofiad o episodau amlach o ddiweithdra ac am gyfnodau hwy os nad ydynt yn NEET hirdymor
- â lefelau cyrhaeddiad is o ran cymwysterau
- wedi bod mewn cysylltiad â'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid.

# Y Llinell Sylfaen

## Sefyllfa Bresennol Caerdydd

Mae'r grŵp NEET cyfan yn cynnwys pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant ond sydd ar gael i'r farchnad lafur a hefyd y bobl ifanc hynny nad ydynt ar gael ar hyn o bryd i'r farchnad lafur (oherwydd salwch, cyfrifoldebau gofalu, beichiogrwydd neu gyfrifoldebau rhianta, er enghraifft).

## Pobl Ifanc sy'n Gadael yr Ysgol

Ers 2010, bu gostyngiad sylweddol yn nifer y bobl ifanc sy'n gadael yr ysgol ym mlwyddyn 11 a ddynodir yn NEET yng Nghaerdydd, o 8.8% i 4.3% yn 2014. (Mae 4.3% yn cyfateb i 151 o bobl ifanc). Er i'r gwelliant hwn ddigwydd yn gyflymach nag mewn awdurdodau lleol eraill, mae angen gostwng y nifer hon ymhellach. Yn 2014 roedd Caerdydd yn yr 21ain safle o blith y 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru o ran ei ffigurau NEET. Mewn perthynas ag awdurdodau tebyg, perfformiodd Caerdydd yn well na Chasnewydd (4.7%) ond yn waeth nag Abertawe (3.5%).

Dengys ystadegau Llywodraeth Cymru ar bobl ifanc sy'n NEET ar gyfer y flwyddyn academaidd 2014 mai canran y bobl ifanc a oedd yn NEET yng Nghymru oedd 3.1% o gymharu â 5.4% yn 2010. Cynhyrchir y ffigurau hyn ar sail Cymru. Mae'r ystadegau yn seiliedig ar Arolwg Cyrchfannau blynyddol a gynhelir ym mis Hydref bob blwyddyn gan Gyrfa Cymru. Nid yw ystadegau 2015 wedi'u cyhoeddi eto.

| **Pobl ifanc a adawodd Flwyddyn 11 y gwyddys nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **2010** | **2011** | **2012** | **2013** | **2014** |
| Caerdydd | 8.8 | 7.7 | 6.7 | 4.9 | 4.3 |
| Cymru | 5.4 | 4.4 | 4.2 | 3.7 | 3.1 |
| Ffynhonnell: Gyrfa Cymru Hynt Disgyblion o Ysgolion yng Nghymru | | | | | |

| **Pobl ifanc a adawodd Flwyddyn 13 y gwyddys nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **2010** | **2011** | **2012** | **2013** | **2014** |
| Caerdydd | 6.2 | 8.4 | 4.9 | 4.2 | 4.4 |
| Cymru | 6.6 | 6.4 | 5.1 | 4.7 | 4.9 |
| Ffynhonnell: Gyrfa Cymru Hynt Disgyblion o Ysgolion yng Nghymru | | | | | |

## 2014 – Proffil NEET Blwyddyn 11

Yn 2014, canran y bobl ifanc a adawodd yr ysgol ym mlwyddyn 11 na wnaethant symud ymlaen i addysg, cyflogaeth na hyfforddiant oedd 4.26% neu 151 o ddisgyblion o garfan o 3546 o ddisgyblion. O'r rhain, ni symudodd 115 o bobl ifanc neu 3.24% ymlaen i addysg, cyflogaeth na hyfforddiant ac ni symudodd 36 o bobl ifanc neu 1.02% ymlaen i addysg, cyflogaeth na hyfforddiant neu ni allent wneud hynny oherwydd salwch neu ddedfryd o garchar.

Dengys dadansoddiad o nodweddion y 151 o ddisgyblion y nodwyd nad oeddent mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (gan gynnwys y 133 o ddisgyblion a nodwyd gan broses VAP) ym mis Hydref 2014 y canlynol:

| | **Gwrywaidd** | **Benywaidd** |
|---|---|---|
| AAA | 1 | 3 |
| Prydau Ysgol am Ddim | 22 | 24 |
| ADY y mae angen cymorth arnynt gyda Saesneg ysgrifenedig a/neu lafar | 3 | 4 |
| Nifer o waharddiadau am gyfnod penodol | 23 | 17 |
| Plant sy'n Derbyn Gofal | 2 | 6 |
| **Ardal Cymdogaeth** | | |
| Gogledd Caerdydd | 10 | 2 |
| Dwyrain Caerdydd | 9 | 6 |
| De-orllewin Caerdydd | 16 | 11 |
| Gorllewin Caerdydd | 8 | 6 |
| Y Ddinas a De Caerdydd | 3 | 6 |
| De-ddwyrain Caerdydd | 20 | 14 |
| Arall (mewn gofal neu'r tu allan i'r sir) | 10 | 12 |

## Proffil Asesu Disgyblion sy'n Agored i Niwed

Er mwyn helpu i nodi disgyblion sy'n agored i niwed yn gynnar mae Cyngor Caerdydd wedi arwain y gwaith o roi Proffil Asesu Pobl Agored i Niwed (VAP) ar waith. Gan ddechrau ym mlwyddyn 8, mae adnodd VAP yn nodi'r disgyblion hynny y mae eu cyfradd presenoldeb yn gostwng o dan 85%. Trafodir data VAP bob tymor yng nghyfarfod panel o asiantaethau a arweinir gan ysgolion ac mae hyn yn helpu Gyrfa Cymru a Chyngor Caerdydd i dargedu cymorth ychwanegol a/neu gyngor a chanllawiau at ddisgyblion a nodwyd.


Ym mis Ebrill 2014, nodwyd 1677 o ddisgyblion ym mlynyddoedd 9 i 11 gan y broses Proffil Asesu Pobl Agored i Niwed. Roedd 682 o'r garfan hon a nodwyd ym mlwyddyn 11.

| **Disgyblion ym mlwyddyn 11<br>Statws COG VAP ym mis Ebrill 2014** | |
|---|---|
| *Statws* | *Nifer y disgyblion* |
| COCH | 304 |
| OREN | 146 |
| GWYRDD | 232 |

| Cyfanswm | 682 |
|---|---|

Ar ôl gadael yr ysgol ym mis Gorffennaf 2014, trosglwyddodd 80.5% o garfan blwyddyn 11 a nodwyd gan VAP (549 o ddisgyblion) yn llwyddiannus i addysg, cyflogaeth a hyfforddiant, tra nodwyd nad oedd 133 o ddisgyblion mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.
Mae'r 133 o ddisgyblion hyn yn rhan o'r cyfanswm o 151 o bobl ifanc NEET a gofnodwyd gan Gyrfa Cymru ym mis Hydref 2014 sy'n dangos bod ein dull o nodi pobl ifanc sy'n agored i niwed yn gadarn.

**Ffigur 2: Canran y bobl ifanc a adawodd yr Ysgol ym Mlwyddyn 11 sydd mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant yn ôl Ardal Partneriaeth Cymdogaeth rhwng 2012/2013 a 2013/14**




D.S. Mae ffigurau ar gyfer ardaloedd partneriaeth cymdogaeth ond yn cynnwys ysgolion a gynhelir.
Nid yw'r ffigurau ar gyfer Gogledd Caerdydd yn cynnwys Ysgol Gymraeg Bro Edern gan nad oes unrhyw garfan o bobl ifanc sy'n gadael yr ysgol ym mlwyddyn 11 ar hyn o bryd.
Nodir nifer yr ysgolion ym mhob ardal partneriaeth cymdogaeth mewn cromfachau ar ôl enw'r ardal.

**Canlyniadau Ysgolion o ran Cymwysterau**

Mae cyrhaeddiad academaidd pobl ifanc yn ffactor pwysig sy'n cyfrannu at eu datblygiad a'u cyfleoedd mewn bywyd yn y dyfodol. Mae'r canlyniadau ar gyfer blwyddyn academaidd 2014-2015 yn adeiladu ar y gwelliannau a welwyd y llynedd. Mae safonau cyrhaeddiad yn parhau i wella ym mhob cyfnod allweddol ac, mewn llawer o ddangosyddion, yn gyflymach nag y maent yn gwella ledled Cymru gyfan. Fodd bynnag, er gwaethaf y gwelliant hwn, nid yw'r canlyniadau ar ddiwedd pob cyfnod allweddol yn ddigon uchel eto.

Yng Nghyfnod Allweddol 4 bu gwelliant sylweddol pellach yn nhrothwy cynhwysol Lefel 2 i 59.3%. Mae hyn wedi haneru nifer yr ysgolion uwchradd lle mae llai na 40% o ddisgyblion yn ennill pum TGAU gradd A*-C gan gynnwys Saesneg neu Gymraeg a mathemateg o chwech i dair. Y tair ysgol sy'n dal i fod yn destun pryder yw'r un ysgolion lle mae niferoedd uwch o bobl ifanc wedi gadael yr ysgol ym mlwyddyn 11, heb lwybr pendant i addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.

Mae perfformiad o ran mesur lefel 2 ehangach Cyfnod Allweddol 4 (5 TGAU gradd A*-C), a mesur lefel 1 (5 TGAU gradd A* - G neu gymhwyster cyfatebol), yn dal i fod yn destun pryder mewn nifer o ysgolion uwchradd. Dengys hyn fod lle i wella digonolrwydd ac ehangder yr hyn a gynigir gan y cwricwlwm er mwyn diwallu anghenion pob disgybl. Mae gadael yr ysgol heb y sylfeini hyn yn rhwystr sylweddol i ddatblygiad a llwyddiant yn y dyfodol.

**<u>Canlyniadau Cyfnod Allweddol 4 Caerdydd</u>**

| | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | Ffigur Gwirioneddol 2015 Cymru |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyflawnodd drothwy Lefel 2 gan gynnwys Cym/Saes/Math | 48.4% | 49.3% | 49.9% | 54.0% | 59.3% | 57.90% |
| Cyflawnodd drothwy Lefel 2 | 63.9% | 68.3% | 73.0% | 76.0% | 81.6% | 84.10% |
| Cyflawnodd drothwy Lefel 1 | 89.3% | 91.2% | 91.7% | 93.2% | 92.1% | 94.40% |

**Pobl Ifanc 16-18 oed (ar ôl yr ysgol)**

Mae Gyrfa Cymru yn rhoi data NEET ar gyfer pobl ifanc 16-18 oed i'r ALl bob mis. Dadansoddir y data yn ôl ardal ddaearyddol a nodir y niferoedd ym mhob haen yn ogystal â symudiadau pobl ifanc drwy haenau model pum haen Gyrfa Cymru.

Ym mis Hydref 2015, cofrestrwyd 563 o bobl ifanc 16-18 oed (haenau 1, 2 a 3 isod) gan Gyrfa Cymru fel rhai nad oeddent mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Mae hyn yn cymharu'n ffafriol â'r 629 a gofnodwyd gan Gyrfa Cymru ar yr un adeg y llynedd (Hyd 14).

| Carfan / Oedran | Haen 1 | Haen 2 | Haen 3 | Haen 4 | Haen 5 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gadawodd Flwyddyn 11 yn 2015** | **34** | **24** | **112** | **359** | **2756** | **3285** |
| 16 | 31 | 21 | 93 | 306 | 2281 | 2732 |
| 17 | 3 | 3 | 19 | 53 | 475 | 553 |
| **Gadawodd Flwyddyn 11 yn 2014** | **125** | **76** | **192** | **186** | **3289** | **3868** |
| 17 | 98 | 64 | 155 | 165 | 2727 | 3209 |
| 18 | 27 | 12 | 37 | 21 | 562 | 659 |
| **Cyfanswm** | **159** | **100** | **304** | **545** | **6051** | **7161** |

Rhennir y wybodaeth hon yn ehangach fel bod pob partner yn glir ynghylch y sefyllfa ym mhob ardal Partneriaeth Cymdogaeth.

**Crynodeb o fodel 5 haen Gyrfa Cymru**

| Haen | Statws | Prif gyfrifoldeb |
|---|---|---|
| Haen 5 | Pobl Ifanc sydd mewn Addysg Bellach, Cyflogaeth neu Hyfforddiant | Darparwyr AB a'r Academi Dysgu Seiliedig ar Waith sy'n gyfrifol am yr haen hon |
| Haen 4 | Pobl Ifanc sydd mewn Perygl o gefnu ar addysg | Gyrfa Cymru sy'n gyfrifol am yr haen hon |
| Haen 3 | Pobl Ifanc ar gofrestr Gyrfa Cymru sy'n cael cymorth ac y mae angen rhagor o gymorth arnynt i gymryd rhan mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant | Gyrfa Cymru sy'n gyfrifol am yr haen hon |
| Haen 2 | Pobl ifanc sy'n ddi-waith ac nad ydynt wedi'u cofrestru â Gyrfa Cymru y mae angen ymgysylltu â nhw yn bersonol er mwyn goresgyn rhwystrau | Yr ALl sy'n gyfrifol am yr haen hon drwy Weithwyr Arweiniol a'r Panel Cymdogaeth |
| Haen 1 | Statws anhysbys neu ni ellir cysylltu â nhw | Yr ALl sy'n gyfrifol am yr haen hon drwy Weithwyr Arweiniol a'r Panel Cymdogaeth |
| Haen 0 | Ni chadarnhawyd eu statws ond maent wedi gadael Cymru | Yr ALl sy'n gyfrifol am sicrhau bod data yn cael eu dileu a bod unrhyw berson ifanc sydd wedi gadael Caerdydd/Cymru yn cael ei symud o haen 1 i haen 0 er mwyn atal amser ac adnoddau rhag cael eu gwastraffu ar waith dilynol. |

Cyflogaeth ieuenctid yng Nghaerdydd – pobl ifanc 16 - 24 oed

Mae cyflogaeth Ieuenctid wedi gwella yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gyda chanran y bobl ifanc sy'n ddi-waith yng ngrwpiau oedran 16 -18 ac 20-24 bellach islaw cyfartaleddau Cymru. Fodd bynnag, dengys ystadegau fod 2,000 o bobl ifanc 16 - 19 oed a 2,800 o bobl ifanc 20 - 24 oed, yn Ninas Caerdydd, yn ddi-waith.

**Y gyfradd ddiweithdra – pobl ifanc 16-19 oed**

| Dyddiad | Caerdydd | | | Cymru | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Di-waith** | **Economaidd weithgar** | **%** | **Di-waith** | **Economaidd weithgar** | **%** |
| Ion 2012-Rhag 2012 | 3,200 | 8,700 | **36.4** | 20,600 | 71,300 | **28.8** |
| Ion 2013-Rhag 2013 | 3,300 | 9,600 | **34.5** | 20,800 | 68,800 | **30.3** |
| Ion 2014-Rhag 2014 | 2,100 | 9,400 | **21.9** | 16,800 | 68,400 | **24.5** |
| Gorff 2014-Meh 2015 | 2,000 | 9,200 | **22.0** | 17,900 | 69,400 | **25.8** |

**Y gyfradd ddiweithdra – Pobl Ifanc 20-24 oed**

| Dyddiad | Caerdydd | | | Cymru | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Di-waith** | **Economaidd weithgar** | **%** | **Di-waith** | **Economaidd weithgar** | **%** |
| Ion 2012-Rhag 2012 | 5,900 | 20,900 | **28.2** | 30,500 | 145,900 | **20.9** |
| Ion 2013-Rhag 2013 | 4,700 | 25,400 | **18.7** | 26,500 | 156,200 | **17.0** |
| Ion 2014-Rhag 2014 | 2,700 | 24,000 | **11.4** | 21,900 | 154,500 | **14.2** |
| Gorff 2014-Meh 2015 | 2,800 | 23,200 | **12.0** | 24,200 | 153,300 | **15.8** |

*Ffynhonnell: ONS - Nomis ar 10 Rhagfyr 2015*